Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad

## Ysgol Arbennig Greenfield
## Duffryn Road
## Pentrebach
## CF48 4BJ

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/05/2017**

## Cyd-destun

Ysgol Greenfield yw'r unig ysgol arbennig a gynhelir gan awdurdod lleol Merthyr Tudful. Mae'r ysgol wedi'i lleoli ym Mhentrebach ar gyrion deheuol Merthyr Tudful. Mae 178 o ddisgyblion 3 i 19 oed ar y gofrestr. Mae gan yr holl ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ar gyfer anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog, anhwylder y sbectrwm awtistig neu anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.

Daw bron pob un o'r disgyblion o Ferthyr Tudful. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dod o gefndir Saesneg ei iaith. Mae 45% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae 6% o'r disgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar dri safle wrth ymyl ei gilydd. Mae hyn yn cynnwys safleoedd ar gyfer disgyblion oed cynradd ac uwchradd, ac mae dwy ystafell ddosbarth wedi'u lleoli yn y ganolfan plant integredig gerllaw.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2010. Mae 24 athro amser llawn a 69 o staff cymorth dysgu yn cael eu cyflogi gan yr ysgol. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arwain wedi bod yn eu swyddi er Medi 2014.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn rhagorol oherwydd:

- Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd helaeth yn eu medrau Cymraeg o gymharu â'u hanghenion, galluoedd a mannau cychwyn
- Mae gan bron pob un o'r disgyblion agweddau rhagorol at ddysgu ac mae ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol yn eithriadol
- Mae'r ysgol yn cynnig ystod hynod effeithiol o brofiadau dysgu sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion
- Mae'r addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol
- Mae'r ysgol yn cynnig lefel uchel iawn o ofal, cymorth ac arweiniad i'w disgyblion

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd:

- Mae'r pennaeth yn cynnig cyfeiriad strategol clir iawn ar gyfer yr ysgol
- Mae'r uwch dîm arwain yn hybu diwylliant o ddyheadau a disgwyliadau uchel i'r holl staff a disgyblion
- Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol ac yn brydlon i flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar sawl agwedd ar waith yr ysgol
- Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer hunanarfarnu, sicrhau ansawdd a chynllunio ar gyfer gwella wedi'u sefydlu'n dda
- Mae gan yr ysgol amrywiaeth helaeth o bartneriaethau hynod ddatblygedig sy'n cefnogi datblygiad disgyblion a staff yn llwyddiannus
- Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllideb yn dda iawn

## Argymhellion

A1 Ymestyn cyfleoedd am achrediad mewn llythrennedd a rhifedd i ddisgyblion mwy abl

A2 Rhannu’r arferion addysgu ac asesu cyson dda ar draws yr ysgol

### Beth sy’n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio’r arfer ragorol a amlygwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu o'u mannau cychwyn ac o ran eu hanghenion a'u galluoedd unigol. Maent yn ymateb yn dda iawn i'r ymagwedd hyblyg at ddysgu, wedi'i haddasu'n briodol i'r unigolyn, ar draws yr ysgol. Mae'r holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd amlwg tuag at gyrraedd eu targedau dysgu ac mae llawer ohonynt yn cyflawni'r targedau a osodir yn eu cynlluniau addysg unigol (CAUau).

Yn y tair blynedd diwethaf, mae'r holl ddisgyblion wedi ymadael â'r ysgol gydag o leiaf un achrediad cydnabyddedig ac wedi symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu leoliadau gwasanaethau oedolion addas. Mae llawer o ddisgyblion 14 i 19 oed yn ennill amrywiaeth eang o gymwysterau galwedigaethol lefel mynediad buddiol mewn cyrsiau sy'n cyfateb yn dda i'w diddordebau. Mae ychydig ddisgyblion mwy abl yn cyflawni cymwysterau lefel 1 defnyddiol mewn cyrsiau fel celf, chwaraeon, hamdden a mecaneg moduron. Mae ychydig ddisgyblion ôl-16 yn cyflawni cymwysterau lefel mynediad a lefel 1 gwerthfawr mewn llythrennedd a rhifedd.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion yn yr ysgol â chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau gydag amser oherwydd ystod eang anghenion addysgol arbennig y disgyblion. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched, disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion o grwpiau ethnig lleiafrifol na'r rhai sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da iawn wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Maent yn datblygu eu medrau darllen, ysgrifennu a chyfathrebu yn dda mewn perthynas â'u hanghenion a'u galluoedd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n dda ar staff a'i gilydd. Maent yn ymateb yn dda i gwestiynau ac mae llawer o ddisgyblion yn siarad am eu gwaith a'u cyflawniadau yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anawsterau dysgu difrifol yn cyfleu eu hanghenion, yn gwneud dewisiadau ac yn datblygu eu hannibyniaeth yn dda iawn gan ddefnyddio system cyfnewid lluniau ac arwyddion. Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau ysgrifennu cynnar iawn. Dysgant drosysgrifo a chopïo llythrennau gyda chymorth. Mae ychydig ddisgyblion mwy abl yn gallu adnabod a ffurfio llythrennau yn annibynnol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn dysgu enwau a seiniau llythrennau ac yn ysgrifennu brawddegau yn annibynnol. Mae ychydig ddisgyblion mwy abl yn cynhyrchu amrywiaeth eang o ddarnau ysgrifennu estynedig at wahanol ddibenion. Maent yn ysgrifennu paragraffau disgrifiadol am eu hoff gymeriad o lyfr darllen y dosbarth ac erthygl fanwl i bapur newyddion am newyddion am eu gwyliau. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio amrywiaeth o dermau penodol i bwnc yn gywir yn eu gwaith ysgrifenedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu amrywiaeth eang o fedrau rhifedd yn gysylltiedig â'u hanghenion a'u galluoedd. Mae llawer ohonynt yn cymhwyso'r medrau hyn yn dda mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau rhif, siâp a mesur cynnar yn llwyddiannus. Maent yn gallu adnabod, enwi a defnyddio bondiau rhif hyd at 100 yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn dda mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn. Maent yn dysgu cyfrif a phwyso cynhwysion wrth ddilyn rysáit, yn defnyddio amserlenni i gynllunio teithiau ac yn defnyddio thermomedr yn gywir i gofnodi tymheredd gan ddefnyddio rhifau positif a negyddol. Mae ychydig ddisgyblion mwy abl yn datblygu'u medrau trafod data yn effeithiol. Er enghraifft, mae ychydig ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn casglu ac yn cyflwyno data mewn graffiau bar yn gywir i ddangos gwahanol liwiau llygaid yn y dosbarth ac i gymharu pwysau gwahanol farrau siocled.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio TGCh yn hyderus mewn gwersi ar draws y cwricwlwm. Maent yn gwneud cynnydd cryf wrth ennill medrau TGCh sy'n berthnasol i'w hanghenion a'u galluoedd. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn defnyddio TGCh yn dda i gofrestru eu hunain ar ddechrau'r dydd ac mae disgyblion hŷn yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau'n dda i gyflwyno ac ailddrafftio'u gwaith. Mae ychydig ddisgyblion yn ymchwilio i bynciau o ddiddordeb yn hyderus ac yn defnyddio rhaglenni TGCh i greu cronfeydd data, siartiau bar a graffiau sylfaenol.

Gydag amser, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau meddwl a'u medrau datrys problemau yn dda. Mewn llawer o wersi, maent yn gweithio'n hyderus mewn grwpiau bach â chymorth ac yn unigol i ddatrys problemau fel amcangyfrif pwysau a hyd gwrthrychau. Gydag amser, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau annibyniaeth yn dda. Er enghraifft, defnyddiant offer cegin yn ddiogel mewn gwersi ac mae nifer bach iawn o ddisgyblion hŷn yn teithio i'w lleoliad gwaith ac oddi yno yn annibynnol. Mae nifer bach iawn o ddisgyblion yn mynychu lleoliadau profiad gwaith yn y gymuned leol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd helaeth yn eu medrau Cymraeg o gymharu â'u hanghenion, eu galluoedd a'u mannau cychwyn. Maent yn adnabod ac yn defnyddio geiriau Cymraeg yn hyderus i gyfarch staff, ymwelwyr a'i gilydd. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio ystod dda iawn o ymadroddion i ddisgrifio sut maent yn teimlo, beth maent yn ei ddysgu a darganfod gwybodaeth am ymwelwyr. Gall ychydig ddisgyblion ehangu eu hatebion a gofyn cwestiynau treiddgar yn Gymraeg yn hyderus. Mae disgyblion yn defnyddio'u medrau Cymraeg yn hyderus ac yn falch o gwmpas yr ysgol.

## Lles: Rhagorol

Mae gan bron pob un o'r disgyblion agweddau rhagorol tuag at ddysgu a'r ysgol. Yn gyffredinol, mae ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol yn eithriadol. Gydag amser, mae bron pob un o'r disgyblion yn dysgu'r medrau y mae arnynt eu hangen i reoli eu teimladau a'u hymddygiad. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn eithriadol o dda drwy gydol y diwrnod ysgol. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at eu cymheiriaid, staff ac ymwelwyr. Mae llawer o ddisgyblion yn ystyriol o'u hanghenion ei gilydd ac yn eu cefnogi ei gilydd yn dda i gyflawni mewn gwersi.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol iawn at ddysgu. Teimlant yn ddiogel yn yr ysgol ac maent yn elwa o'r ethos anogol a'r lefel uchel o ofal a chymorth sy'n cael eu rhoi gan staff. Mae'r holl ddisgyblion yn gwybod arferion rheolaidd y dydd yn dda iawn a dilynant gyfarwyddiadau yn ofalus ac yn brydlon. Mae llawer o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Pan na fyddant, mae hyn o ganlyniad i anghenion cymhleth disgyblion yn bennaf.

Mewn gwersi, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymdawelu'n gyflym, yn canolbwyntio'n dda ac yn cynnal diddordeb yn eu dysgu. Maent yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau ac yn gweithio'n galed i wella. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o ba mor dda maent yn ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at fwyta'n iach a manteision ymarfer corff. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau corfforol, gan gynnwys dawns, pêl-droed a nofio. Mae llawer o ddisgyblion yn mynychu'r ystod eang iawn o weithgareddau chwaraeon sy'n digwydd amser cinio. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau anturus fel dringo creigiau a chanŵio. Mae disgyblion â symudiadau cyfyngedig yn ymroi'n dda i amrywiaeth werthfawr o weithgareddau i wella'u cydsymud a'u hymatebion corfforol. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni hydrotherapi, ffisiotherapi a therapi adlamu.

Mae gan ddisgyblion lais cryf ar draws yr ysgol. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn frwdfrydig am eu gwaith ac wedi cymryd yr awenau mewn nifer o fentrau, er enghraifft datblygu'r polisi gwrth-fwlio. Mae disgyblion hŷn yn ymgymryd ag amrywiaeth eang o rolau yn yr ysgol. Er enghraifft, maent yn gweithio fel mentoriaid cymheiriaid, yn helpu i redeg banc yr ysgol ac yn gyfrifol am werthu ffrwythau amser egwyl. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu medrau arwain gwerthfawr.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu hannibyniaeth ac maent yn cymryd mwy a mwy o gyfrifoldeb amdanynt eu hunain ac eraill wrth iddynt fynd ymlaen drwy'r ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau bywyd pwysig trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol, er enghraifft trwy berfformio mewn cynyrchiadau drama, mynychu digwyddiadau chwaraeon rhanbarthol a chodi arian ar gyfer elusennau cenedlaethol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth helaeth o brofiadau dysgu sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Mae'r cwricwlwm yn eang, yn gytbwys ac wedi'i addasu'n unigol i fodloni anghenion a galluoedd disgyblion. Mae'r amrywiaeth eang o lwybrau dysgu yn ymestyn profiadau dysgu disgyblion hŷn yn llwyddiannus. Mae bron pob un o'r disgyblion ôl-16 yn mynychu cwrs cyswllt coleg ac mae ychydig ohonynt yn mynychu cyrsiau galwedigaethol prif ffrwd sy'n cyfateb i'w diddordebau.

Mae nifer bach iawn o ddisgyblion yn mynychu lleoliadau profiad gwaith yn y gymuned leol.

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang o gymwysterau lefel mynediad ac achrediadau galwedigaethol addas ar lefel un i ddisgyblion 14-19 oed.  Mae cyfleoedd i ennill achrediad lefel un mewn llythrennedd a rhifedd yn ddigonol ar gyfer disgyblion ôl-16.  Mae'r ysgol yn ymgorffori cyfleoedd llythrennedd a rhifedd yn bwrpasol ac yn greadigol ar draws y cwricwlwm.  Mae'r fframwaith llythrennedd a rhifedd wedi'i wreiddio'n dda ar draws yr ysgol.  O ganlyniad, caiff disgyblion gyfleoedd ystyrlon i gymhwyso a datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn holl feysydd y cwricwlwm.

Mae darpariaeth wedi'i chynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm.  Mae'r ysgol yn gwneud defnydd creadigol o amrywiaeth o dechnoleg i ymestyn profiadau dysgu a sicrhau bod pawb yn gallu manteisio'n llawn ar y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn cynllunio rhaglenni ymyrraeth wedi'u haddasu'n unigol i ddisgyblion y mae arnynt angen cymorth â'u medrau sylfaenol, eu hymddygiad a'u medrau cyfathrebu cymdeithasol.  Er enghraifft, mae cymorth targedig yn y Cyfnod Sylfaen i wella hunan-barch a hyder disgyblion yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ymddygiad disgyblion iau.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer hybu'r Gymraeg ar draws yr ysgol yn nodwedd ragorol.  Mae'r ysgol yn blaenoriaethu datblygu medrau Cymraeg staff a disgyblion.  Mae cyfleoedd helaeth i ddisgyblion ymarfer eu medrau Cymraeg ar draws yr ysgol.  Caiff disgyblion gyfleoedd gwerth chweil i ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru, er enghraifft trwy ymweld â lleoedd o ddiddordeb lleol a gwersyll yr Urdd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy yn hynod greadigol a llwyddiannus.  Er enghraifft, trwy brosiectau cymunedol ac ysgol, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu dealltwriaeth drylwyr o bwysigrwydd ailgylchu ac arbed ynni.  Mae cysylltiadau da â gwledydd eraill, fel Chile, yn helpu i hybu dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu:  Da**

Mae bron pob un o'r athrawon a staff cymorth dysgu yn adnabod eu disgyblion yn dda ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel am eu cyflawniad a'u cynnydd mewn dysgu.  Maent yn olrhain pob agwedd ar ddatblygiad a chynnydd disgyblion yn ddiwyd.  Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i ddarparu profiadau dysgu sy'n sicrhau bod lefel gyson dda o gyfranogi mewn dysgu gan bron pob un o'r disgyblion mewn gwersi.  Yn gyffredinol, mae cynllunio effeithiol, sy'n cynnwys athrawon a staff cymorth dysgu, yn sicrhau bod gwersi yn cyfateb i anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion ar y lefel gywir.  Mae cynllunio carwsél o weithgareddau yn ystod gwersi yn ofalus yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu medrau'n dda ac mae'n sicrhau bod y dysgu'n symud yn ei flaen yn fywiog.

Mae staff yn gwneud defnydd creadigol o amrywiaeth helaeth o strategaethau arbenigol i fodloni anghenion bron pob un o'r disgyblion.  Er enghraifft, defnyddiant

iaith arwyddion a symbolau yn eithriadol o dda i gyfathrebu â disgyblion. Mae hyn yn galluogi disgyblion i fanteisio ar y cwricwlwm yn llwyddiannus a gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu. Mae athrawon yn defnyddio staff cymorth yn eithriadol o dda. Mae'r staff hyn yn gwneud cyfraniad eithriadol at y broses addysgu a dysgu. Mae staff yn cynorthwyo disgyblion i reoli eu hymddygiad eu hunain yn dda iawn mewn gwersi.

Mae'r ysgol yn defnyddio amrywiaeth eang o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn llwyddiannus. Maent yn addasu'r strategaethau'n dda i fodloni anghenion disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae gan bron pob un o'r gwersi amcanion dysgu clir. Fel arfer, mae'r rhain yn cyfateb yn dda i dargedau dysgu disgyblion. Mae staff addysgu yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion yn ystod gweithgareddau dysgu, yn holi disgyblion yn ofalus ac yn rhoi cyfleoedd da iddynt feddwl cyn rhoi atebion. Rhoddant gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion adolygu eu cynnydd a chynnydd eu cymheiriaid mewn sesiynau dosbarth llawn. Mae'r strategaethau hyn yn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd mewn gwersi a chydag amser. Mewn nifer bach iawn o achosion, nid yw adborth ysgrifenedig bob amser yn helpu i gynorthwyo disgyblion i wella'u gwaith.

Mae'r trefniadau i gymedroli gwaith disgyblion yn gynhwysfawr. Maent yn cefnogi barnau cadarn o asesiadau athrawon a'r disgwyliadau uchel sydd gan yr holl staff o safbwynt perfformiad disgyblion. Mae adroddiadau blynyddol ac adolygiadau statudol yn rhoi gwybodaeth dda i rieni a gofalwyr am gynnydd eu plant. Mae cyfleoedd priodol i ddisgyblion a rhieni gyfrannu at yr adroddiadau hyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn cynnig lefel uchel iawn o ofal, cymorth ac arweiniad i'w disgyblion. Mae'r ffocws clir ar anghenion iechyd, gofal a lles disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r dull rhagorol sy'n canolbwyntio ar y disgybl wedi'i wreiddio'n dda ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn cynnig rhaglenni ymyrraeth i wella hunan-barch, cyfathrebu ac ymddygiad disgyblion, sydd wedi'u paru'n dda ag anghenion, diddordebau a galluoedd unigol disgyblion. Mae staff yn cymhwyso'r rhaglenni hyn yn gyson, sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar les a datblygiad personol disgyblion.

Mae gan yr ysgol raglen addysg bersonol a chymdeithasol sydd wedi'i chynllunio'n dda. Mae staff yn rhoi gwybodaeth werthfawr i ddisgyblion, yn briodol i'w hoedran, am ryw, perthnasoedd iach a diogelwch personol, gan gynnwys sut i fod yn ddiogel ar-lein. Mae gwasanaethau sy'n procio'r meddwl yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar eu credoau eu hunain ac archwilio amrywiaeth eang o faterion moesegol.

Mae gweithdrefnau hynod effeithiol i annog bwyta ac yfed yn iach, a hybu ffyrdd iach o fyw. Mae'r rhain yn cynnwys llawer o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon fel rhan o'r cwricwlwm ac mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth lawn i rieni a gofalwyr am gynnydd eu plentyn ac mae'n rhoi hyfforddiant defnyddiol i rieni, i ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion sy'n effeithio ar eu plentyn. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar reoli ymddygiad a defnyddio iaith arwyddion. Mae'r rhieni sy'n mynychu yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn yn fawr.

Mae amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddisgyblion wneud cyfraniad cadarnhaol at fywyd yr ysgol.  Mae'r rhain yn cynnwys cynllun mentora cymheiriaid, cyngor ysgol hynod effeithiol a chyngor eco.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni anghenion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu:  Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar, ofalgar a chynhwysol iawn sy'n gwerthfawrogi ac yn cefnogi pob un o'i disgyblion a'i staff.  Mae arwyddair yr ysgol, sef 'opening doors to the future', yn treiddio trwy bob agwedd ar ei gwaith yn llwyddiannus.  Mae staff a disgyblion yn hybu'r gwerthoedd a'r ethos cadarn yn eithriadol o dda ar draws yr ysgol.  Mae'r ysgol yn dathlu ac yn parchu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda, ac mae holl feysydd y cwricwlwm ar gael i bob disgybl yn gyfartal.

Caiff adeiladau'r ysgol eu cynnal a chadw'n dda ac maent yn ddiogel.  Mae'r ysgol yn gwneud defnydd creadigol o'r gofod sydd ar gael dan do i gynnig amgylchedd dysgu llachar ac ysgogol i bob disgybl.  Mae amrywiaeth helaeth o offer, llyfrau ac adnoddau TGCh.  Mae adnoddau arbenigol, fel y pwll hydrotherapi a'r ystafelloedd therapi cyffwrdd, yn ymestyn y profiadau dysgu i ddisgyblion yn effeithiol.  Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth sylweddol i anghenion disgyblion hŷn, mwy abl, ac mae'n rhoi llety iddynt sy'n eu galluogi i ddatblygu eu hannibyniaeth yn llwyddiannus.  Ar draws yr ysgol, mae arddangosfeydd yn dathlu llwyddiannau disgyblion yn dda, er enghraifft trwy ffotograffau o ddisgyblion yn gweithio ac yn chwarae.  Mae staff yn dechrau gwneud defnydd addas o'r mannau awyr agored i gefnogi addysgu a dysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Rhagorol**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth eithriadol.  Mae ganddo ymrwymiad cadarn i wella'r ysgol yn barhaus.  Mae tîm o uwch arweinwyr ymroddedig yn cefnogi'r pennaeth.  Mae gan yr uwch dîm arwain gyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol a rhoddant brofiadau dysgu cadarnhaol, o ansawdd uchel, i'r disgyblion.  Maent yn hyrwyddo diwylliant o ddyheadau a disgwyliadau uchel ar gyfer yr holl staff a disgyblion.

Mae gan yr holl staff ddealltwriaeth drylwyr o gyfeiriad strategol a gwerthoedd yr ysgol ac maent yn adlewyrchu'r rhain yn dda trwy eu gwaith eu hunain.  Mae hyn yn helpu i hybu'r ethos cadarnhaol iawn yn yr ysgol ac mae'n cyfrannu at ymddygiad eithriadol o dda'r disgyblion.

Mae'r pennaeth, yr uwch arweinwyr a'r holl staff yn yr ysgol yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda iawn.  Mae'r uwch dîm arwain yn dirprwyo cyfrifoldebau yn greadigol i bob aelod staff.  Mae hyn yn cynyddu'r gallu i arwain yn yr ysgol.  O ganlyniad, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da iawn o ran gwella ansawdd dros y tair blynedd diwethaf.  Mae calendr manwl o gyfarfodydd yn yr ysgol.  Maent wedi'u cynllunio'n dda, yn cynnwys agendâu clir ac yn arwain at gamau gweithredu clir i'r staff.

Mae'r trefniadau ar gyfer adolygu perfformiad yr holl staff wedi'u sefydlu'n dda. Mae uwch arweinwyr yn nodi ac yn herio tanberfformio yn effeithiol a, phan fydd eu hangen, rhoddir rhaglenni cefnogol ar waith yn gyflym i sicrhau gwelliannau.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol ac yn brydlon i flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Caiff hyn ddylanwad cadarnhaol ar sawl agwedd ar waith yr ysgol. Er enghraifft, mae wedi ymgorffori arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ei gwaith yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae'r ysgol yn gweithio'n rhagweithiol ag ysgolion arbennig eraill ar draws Cymru i gynllunio ar gyfer cyflwyno'r fframwaith cymhwysedd digidol a'r cwricwlwm newydd.

Mae'r corff llywodraethol yn cynnig cymorth cryf i'r ysgol a lefel briodol o her mewn sawl maes, fel presenoldeb a chyllid. Mae sawl aelod o'r corff llywodraethol yn ymwelwyr cyson â'r ysgol ac yn cyflawni teithiau dysgu â ffocws yn rheolaidd. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth dda iddynt o ystod anghenion disgyblion ar draws yr ysgol. Trwy hyfforddiant rheolaidd, adroddiadau cynhwysfawr gan y pennaeth a phecynnau data manwl, mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth ddigonol o gryfderau'r ysgol a'i phrif feysydd i'w gwella.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer hunanarfarnu, sicrhau ansawdd a chynllunio ar gyfer gwella wedi'u sefydlu'n dda ac yn effeithiol tu hwnt. Mae'r rhain yn annog y diwylliant o welliant parhaus yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol galendr monitro cynhwysfawr a manwl sy'n arfarnu ei holl feysydd gwaith. Mae'n canolbwyntio'n glir ar wella safonau ac ansawdd addysgu ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys arsylwi addysgu a chraffu ar waith disgyblion. Mae staff yn defnyddio'r data helaeth ar lefel y disgybl a gwybodaeth o olrhain y CAUau yn dda i osod targedau gwybodus ar gyfer gwella. Mae'r ysgol yn casglu ac yn ymgorffori barn rhieni a disgyblion yn llwyddiannus drwy'r adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn cynnig arfarniad cywir a manwl o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae cynllun gwella'r ysgol yn cysylltu'n dda iawn â'r adroddiad hunanarfarnu. Mae'n gosod targedau clir, yn dyrannu adnoddau ac yn gosod meini prawf llwyddiant mesuradwy. Yn ddiweddar, mae uwch arweinwyr wedi mireinio'r trefniadau ar gyfer gosod blaenoriaethau ac wedi gostwng nifer y targedau i bump. O ganlyniad, mae'r uwch dîm arwain yn gallu gosod targedau gwella heriol a phenodol iawn ar gyfer y dyfodol. Mae uwch arweinwyr yn adolygu cynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau blaenorol yn drylwyr, fel gwella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg.

Mae'r ysgol wedi bod yn rhagweithiol iawn wrth fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad diwethaf a pharhau i wella ansawdd y ddarpariaeth ers hynny.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol amrywiaeth helaeth o bartneriaethau hynod lwyddiannus i gefnogi disgyblion a datblygu staff. Mae uwch arweinwyr yn monitro ac yn arfarnu effaith partneriaethau ar ddeilliannau disgyblion yn rheolaidd ac yn drylwyr. Mae'r wybodaeth hon yn cyfrannu'n dda at set ddata'r ysgol a'i hunanarfarniad.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau cryf ag asiantaethau allanol, fel y gwasanaethau cymdeithasol, gweithwyr iechyd proffesiynol a'r gwasanaeth lles addysg, sy'n rhoi cyngor a chymorth gwerthfawr i staff am anghenion disgyblion unigol. Mae'r partneriaethau hynod ddatblygedig hyn yn sicrhau bod gan yr ysgol ddull cydlynedig o gefnogi presenoldeb disgyblion a'u hanghenion iechyd a chyfathrebu.

Mae athrawon yn gweithio'n effeithiol iawn gyda staff o ysgolion arbennig eraill ledled Cymru i sicrhau bod gwaith disgyblion yn cael ei safoni a'i gymedroli'n gywir. Mae hyn yn sicrhau dibynadwyedd asesiadau athrawon, yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer medrau ar draws y cwricwlwm ac yn hybu diwylliant o arfer fyfyriol yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn rhannu ei harferion da gyda'r consortiwm addysg rhanbarthol a'r awdurdod lleol yn rheolaidd. Mae'r ysgol yn cymryd rôl arweiniol yn cefnogi llawer o ysgolion prif ffrwd i reoli ymddygiad heriol ac mae staff yn gweithio'n agos gydag ysgolion eraill i ddatblygu cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws yr awdurdod lleol. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda iawn gydag ychydig ysgolion a meithrinfeydd prif ffrwd i sicrhau bod cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ryngweithio â chymheiriaid mewn gwahanol leoliadau. Er enghraifft, mae nifer bach iawn o ddisgyblion iau yn mynychu lleoliad meithrin bob wythnos.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau cryf â rhieni. Mae'r grŵp rhieni, 'Grŵp', yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i rieni gyfarfod â rhieni eraill a mynychu digwyddiadau hyfforddiant penodol. Mae hyfforddiant ar reoli ymddygiad yn cynorthwyo rhieni i ddatblygu eu medrau cymorth ymddygiad gartref. Mae hyn wedi cael effaith nodedig ar safonau ymddygiad a'r agweddau at ddysgu ar draws yr ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer priodol o athrawon cymwysedig i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol. Cânt eu cefnogi'n dda gan dîm o staff cymorth medrus tu hwnt. Mae uwch arweinwyr yn dosbarthu staff yn effeithlon ar draws yr ysgol i fodloni anghenion dysgu, gofal a lles disgyblion. Mae'r trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn briodol. Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn galluogi uwch arweinwyr i nodi anghenion datblygiad proffesiynol unigol ac ysgol gyfan yn dda. Mae'r holl staff yn elwa o amrywiaeth eang o gyfleoedd datblygiad proffesiynol sy'n canolbwyntio'n glir ar y blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol.

Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllideb yn effeithiol. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn gwneud yn siŵr bod gwariant wedi'i gysylltu'n dda â blaenoriaethau'r ysgol ac maent yn monitro effaith gwariant grant yn effeithiol iawn trwy ddadansoddi data ac adolygiadau sicrhau ansawdd trylwyr. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd creadigol o'r grant amddifadedd disgyblion i wella lles a phrofiadau dysgu disgyblion.

Yng ngoleuni'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 105 | 99 | 4 | 2 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 94% | 4% | 2% | |
| | | 93% | 3% | 3% | |
| The school deals well with any bullying. | 104 | 85 | 6 | 13 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 82% | 6% | 12% | |
| | | 83% | 9% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 105 | 95 | 2 | 8 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 90% | 2% | 8% | |
| | | 92% | 3% | 5% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 105 | 101 | 2 | 2 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 96% | 2% | 2% | |
| | | 92% | 4% | 5% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 105 | 88 | 9 | 8 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 84% | 9% | 8% | |
| | | 90% | 6% | 3% | |
| I am doing well at school | 105 | 97 | 1 | 7 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 92% | 1% | 7% | |
| | | 92% | 4% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 105 | 103 | 0 | 2 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 98% | 0% | 2% | |
| | | 97% | 1% | 2% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 105 | 99 | 2 | 4 | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 94% | 2% | 4% | |
| | | 94% | 3% | 3% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 105 | 68 | 12 | 25 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 65% | 11% | 24% | |
| | | 63% | 20% | 17% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 105 | 95 | 4 | 6 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 90% | 4% | 6% | |
| | | 91% | 5% | 4% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 105 | 88 | 11 | 6 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 84% | 10% | 6% | |
| | | 78% | 15% | 8% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 105 | 85 | 10 | 10 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 81% | 10% | 10% | |
| | | 82% | 13% | 6% | |

# Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 48 | 40 | 6 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 83% | 12% | 4% | 0% | | |
| | | 77% | 21% | 2% | 1% | | |
| My child likes this school. | 48 | 40 | 7 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 83% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 79% | 20% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 48 | 43 | 3 | 1 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 90% | 6% | 2% | 0% | | |
| | | 81% | 18% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 48 | 32 | 12 | 3 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 67% | 25% | 6% | 2% | | |
| | | 68% | 29% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 48 | 25 | 18 | 2 | 1 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 52% | 38% | 4% | 2% | | |
| | | 58% | 38% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 48 | 38 | 8 | 0 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 79% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 76% | 23% | 1% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 48 | 33 | 14 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 69% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 69% | 30% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 48 | 21 | 18 | 1 | 1 | 7 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 44% | 38% | 2% | 2% | | |
| | | 54% | 36% | 8% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 48 | 40 | 6 | 2 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 83% | 12% | 4% | 0% | | |
| | | 77% | 21% | 1% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 48 | 37 | 9 | 0 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 77% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 70% | 28% | 1% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 48 | 41 | 5 | 1 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 85% | 10% | 2% | 2% | | |
| | | 76% | 22% | 1% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 47 | 38 | 6 | 2 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 81% | 13% | 4% | 2% | | |
| | | 73% | 24% | 3% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 48 | 40<br>83% | 6<br>12% | 2<br>4% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 69% | 26% | 4% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 48 | 42<br>88% | 4<br>8% | 1<br>2% | 1<br>2% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 77% | 19% | 2% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 48 | 27<br>56% | 17<br>35% | 0<br>0% | 1<br>2% | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 60% | 35% | 3% | 1% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 48 | 35<br>73% | 9<br>19% | 1<br>2% | 0<br>0% | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 67% | 31% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 48 | 15<br>31% | 10<br>21% | 4<br>8% | 2<br>4% | 17 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 36% | 10% | 3% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 48 | 37<br>77% | 9<br>19% | 1<br>2% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 71% | 26% | 3% | 0% | | |
| The school is well run. | 48 | 42<br>88% | 4<br>8% | 1<br>2% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 78% | 20% | 2% | 1% | | |

# Atodiad 2

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Ms Margaret Elisabeth Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Richard Lloyd | Arolygydd Tîm |
| Mrs  Gill Sims | Arolygydd Tîm |
| Mr Anthony Mulcahy | Arolygydd Tîm |
| Mr Matthew Evans | Arolygydd Lleyg |
| Mrs Ladan Harper | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mr Wayne Murphy (Pennaeth) | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau ADY

**ADDLl**:  anawsterau dysgu dwys a lluosog

**ADHD**:  anhwylder gorfywiogrwydd diffyg canolbwyntio

**ADP**:  anawsterau dysgu penodol, yn cynnwys dyslecsia

**ADY**:  anghenion dysgu ychwanegol

**ASA**:  Anhwylder y Sbectrwm Awtistig, sy'n cynnwys Syndrom Asperger

**AYA**:  adnodd ychwanegol yr athro

**AYECh**:  Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

**CY**:  Cod Ymarfer

**NAS**:  nam amlsynhwyraidd

**NC**:  nam ar y clyw

**NG**:  nam ar y golwg